Cofnodion Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **8 Rhagfyr 2025** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL:-** Cyng. John Wyn Williams (Cadeirydd), Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Steve Bell.

**Swyddogion:-** Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) a Sioned Jones (Cyfieithydd).

**17/25 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Gwynant Roberts a'r Cyng. Jackie Spence.

## 18/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

### 19/25 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 13 HYDREF 2025

**PENDERFYNWYD:** derbyn cofnodion y cyfarfod ar 13 Hydref 2025, fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod. Fodd bynnag, tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith nad oedd cais am fwy o fanylion ar y Cofnod Gweithredu yn cynnwys pob un o elfennau'r cais.

## 20/25 DERBYN DIWEDDARIAD AR Y GWAITH ADFER STRWYTHUROL AR Y PIER

Adroddwyd fod gwaith adfer strwythurol y Pier, ac eithrio'r chwythu tywod a'r peintio, yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Yr amcangyfrif erbyn hyn yw na fydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau tan ddiwedd Mawrth neu ddechrau Ebrill 2026. Ochr yn ochr â'r gwaith strwythurol hwn, byddai YGC yn cwblhau eu hasesiad o hyd llawn y Pier gyda golwg ar adrodd yn ôl i'r Cyngor yn y Gwanwyn. Yn ddelfrydol, bydd angen i'r gwaith chwythu tywod a pheintio metel dau gam y gwaith strwythurol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gael ei gwblhau o fewn y ddwy i dair blynedd nesaf.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn yr adroddiad.

## 21/25 TRAFOD Y COFNOD GWEITHREDU ASEDAU

*Roedd Cofnod Gweithredu wedi'i ddiweddaru wedi cael ei anfon i'r Aelodau o flaen llaw*

Trafododd y Pwyllgor nifer o eitemau ar y Cofnod Gweithredu a chawsant wybod am rai eitemau oedd wedi cael eu hychwanegu gan y Cyfarwyddwr Dinesig ers y cyfarfod diwethaf. Gofynnodd y Pwyllgor i ddiweddariad ar holl Feysydd Chwarae'r ddinas gael ei ychwanegu at y Cofnod.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn y Cofnod Gweithredu.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.55 pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR